Dydd Mawrth Gorffennaf 11eg

# Gwyddoniaeth Gwych

Pa ddefnydd ydi'r gorau i wneud côt law i Ffion y ffermwraig?

## D.D.

Defnyddio y pethau rydw i'n eu gwybod i'm helpu i ddyfalu canlyniad.

## M.P.Ll.

- Gallu cymharu ac egluro'r gwahaniaeth rhwng gwahanol ddeunyddiau.
- Dod i ddeall bod rhai deunyddiau yn fwy gwrth-ddŵr nac eraill.
- Cadw'r bwrdd yn sych.

1. Daliwch y deunydd at y golau. Ydych chi'n gallu gweld drwy'r defnydd o gwbl? Ysgrifennwch 'Ydw' neu 'Nac ydw' yn y blychau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| polyester glas | | gwlân | |
| cotwm llwyd | | denim | |

2. Pa un o'r deunyddiau yw'r un mwyaf **tyllog**?
(tyllog = gyda'r mwyaf o dyllau)

| |
|---|
| |

3. Rhowch **ansoddair** (gair sy'n disgrifio) am bob deunydd
(e.e, gwlân: cynnes)

| | | | |
|---|---|---|---|
| polyester glas | | gwlân | |
| cotwm llwyd | | denim | |

## Rhagfynegi

4. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y gôt **gynhesaf** i Ffion?

5. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y gôt law **orau** i Ffion?

**Her ddewisiol:** Pam ydych chi'n meddwl hynny?

6. Eglurwch beth mae '**gwrth-ddŵr**' yn ei olygu:

## Amser arbrofi

8. Nodwch faint o ddŵr aeth drwy'r deunyddiau mewn munud:

ml = mililitr

gwlân ml

denim ml

polyster glas ml


cotwm llwyd ml

**Casgliad**

Y defnydd i wneud y gôt law orau i Ffion yw:

Cofnodwch eich mesuriadau yn JiT5 ar Hwb

Côt law Ffion y ffermwraig (ac enw'r plentyn)



Tynnwch lun o Ffion y ffermwraig yn ei chôt newydd, yn y glaw:



Gwyddoniaeth Gwych

# Côt law Ffion

---

## Canllaw gwers i gymorthyddion - gyda llawer o ddiolch

1. Ceisio cael y plant i ddeall bod rhai deunyddiau efo gwead tynnach na'i gilydd (e.e. gwlân yn weddol dyllog, polyester yn wead tynn iawn). Y mwyaf llac (a thyllog) ydi'r defnydd y mwya'n byd o ddŵr eith drwyddo.

2. Hyn yn arwain o'r pwynt cyntaf, uchod. Ydi'r plant yn gallu dweud pa mor dyllog ydi deunyddiau eraill e.e siwmper ysgol, *fleece*, papur cegin, *cling film* ac yn y blaen?

3. Mae'r cwestiwn hwn yn ceisio dod â llythrennedd ac iaith i mewn i'r wers wyddoniaeth (i ateb gofynion trawsgwricwlaidd). E.e, polyester glas = 'llyfn', 'ysgafn'. Gwlân = 'meddal', 'fflwfflyd', 'cynnes'.

4. Yma, dwi'n trio eu cael nhw i feddwl am pa mor drwchus ydi'r deunydd ac ydi o'n gynnes i'w wisgo. A fydd Ffion yn debygol o chwysu mwy yn un na'r llall? Ydi un deunydd am bara yn hirach na'r llall?

5. Trafod y syniad o ddeunydd yn gallu dal dŵr. Trafod deunyddiau fel *cling film*, cyrtan cawod, ymbarél ac efallai eu cotiau'r plant eu hunain. Hefyd welis a 'sgidiau sy'n dal dŵr. Cotiau rybyr, *poncho* plastig.

6. Yn dilyn oddi ar y drafodaeth uchod, egluro beth ydi 'gwrth ddŵr'.

**Amser arbrofi:** Cynnal yr arbrawf.

Sicrhau bod yr un faint o ddŵr yn cael ei ddefnyddio **bob tro** (awgrymu **50ml)**
Angen rhywbeth i fesur amser o **1 munud**. Mae'n bwysig iawn bod amser yr arbrawf yr un fath bob tro.
Mesur faint o ddŵr sy'n mynd drwy'r defnydd, gan ddefnyddio'r jygiau hir, tal.
Cofnodi'r data a'i roi y JiT5 ar Hwb.

**Yn gyffredinol, i brocio'r meddwl**
Ydi lliw'r gôt yn gwneud gwahaniaeth i ba mor wrth ddŵr ydi hi?
Pa ddau ddeunydd, o'u cyfuno, fysa'n gallu cadw Ffion yn sych a chynnes.

**Diolch genod!!!**